



Mwynhau dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.



Ysgol Carreg Emlyn

Clocaenog, Rhuthun, Sir Ddinbych, LL15 2AY

Tel: Clocaenog 01824 750636 Cyffylliog 01824 710274

ysgol.carreg.emlyn@sirddinbych.gov.uk

www.ysgolcarregemlyn.cymru

@carregemlyn

Newyddion 11/12/17 News

Ysgolion Iach / Healthy Schools

Cawsom asesiad tuag at Gwobr Ansawdd Cenedlaethol Ysgolion Iach yr wythnos diwethaf. Diolch i'r staff ac yn enwedig Miss Hughes a Mrs Ellis oedd wedi bod yn gweithio'n galed yn paratoi at yr asesiad dau ddiwrnod yma. Hefyd diolch i'r aelodau o bwyllgor Cyfeillion yr Ysgol a'r llywodraethwyr ddaeth i siarad gyda'r aseswyr. A diolch arbennig i'r plant - roedd y ddwy aseswraig yn eu canmol i'r cymylau gan ddweud pa mor gwrtais oeddynt a pha mor dda oedd eu hymddygiad a'u hagwedd tuag at gadw'n iach. Cawn wybod os ydym wedi bod yn llwyddianus yn yr wythnosau nesaf. *Last week we had a Healthy Schools National Quality Award assessment. Thanks to the staff and especially Miss Hughes and Mrs Ellis for working hard to prepare for this two day assessment. Also thanks to the members of the Friends of the School and the governors who came to meet with the assessors. A special thank you to the children – the assessors commented on how polite and well behaved they were and how they had a positive attitude towards keeping healthy. We will find out if we have been successful in the next few weeks.*

Bylbiau'r Gwanwyn / Spring Bulbs

Mae Bl 3 a 4 yn cymeryd rhan eleni ym Mhrosiect Bylbiau'r Gwanwyn sydd wedi cael ei drefnu gan yr Amgueddfa Genedlaethol. Maent wedi plannu bylbiau cennin pedr ddiwedd Hydref a nawr byddant yn cofnodi'r glaw a dyddiad blodeuo y cennin pedr ar y we. Ar ddechrau'r prosiect roedd cystadleuaeth y ffotograff gorau ac roedd Ysgol Carreg Emlyn yn un o'r ysgolion buddugol! Rydym yn edrych ymlaen at gael ein gwobr yn fuan! *Yr 3 & 4 are taking part in The Spring Bulb Project organized by The National Museum of Wales this year. They have planted daffodil bulbs and will now record the rainfall and date of flowering on the internet. At the beginning of the project there was a competition for the best photograph and Ysgol Carreg Emlyn were one of the winners! We look forward to receiving our prize soon.*

Dyddiadau i'w Cofio

Dates for your Diary

- 19/12/17** Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol / *School's Christmas Service* – Capel Cyffylliog Chapel 6.30pm
21/12/17 Dathlu Nadolig yn yr ysgol – cinio Nadolig, ymweliad Sion Corn a pharti. *Celebrating Christmas in school – Christmas lunch, visit from Santa and party.*
22/12/17 Cau dros wyliau'r Nadolig / *Close for Christmas holiday*
8/1/18 Diwrnod Hyfforddiant Staff / *Staff Training Day*
9/1/18 Plant yn ôl / *Children start back in school*
16 & 23 & 30/1/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
29-31/1/18 Trip Bl 5 a 6 i Gaerdydd / *Yr 5 & 6 visit to Cardiff*
6/2/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
9/2/18 Ysgol yn au dros hanner tymor / *School closes for half term.*
19/2/18 Ysgol yn ail agor / *School open*
20/2/18 Clwb yr Urdd CA2 / KS2 Urdd Club
24/2/18 Eisteddfod yr Urdd Cylch Rhuthun / *Ruthin Area Urdd Eisteddfod Ysgol Brynhyfryd.*
17/3/18 Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych / *Denbighshire Urdd Eisteddfod – Rhuthun*
23/3/18 Cau dros y Pasg / *Close for Easter Holiday.*



**Llun
buddugol
cystadleuaeth
Bylbiau'r
Gwanwyn.**

**Winning
photo Spring
Bulbs
competition**

Tywydd Garw / Bad Weather

Oherwydd y tywydd garw a phroblemau gwresogi penderfynwyd cau yr ysgol dydd Gwener, Dydd Llun a Dydd Mawrth. Ymddiheuriadau am unrhyw anghyfleustra achoswyd oherwydd hyn. Ond rwy'n siwr eich bod yn cytuno na diogelwch y plant a staff sy'n dod gyntaf. Os oes mwy o eira byddwn yn ceisio gadael i chi wybod mor gynnar a phosib os ydi'r ysgol yn cau neu os nad ydi'r bws yn rhedeg o Glocaenog i Gyffylliog. Diolch am eich cydweithrediad. *Because of the bad weather and problems with heating we decided to close school on Friday, Monday and Tuesday. Apologies for any inconvenience this may have caused you. But I'm sure you agree that children and staff's safety comes first. If we have more snow we will try to let you know as early as possible if the school is closing or if the bus from Clocaenog to Cyffylliog is not running. Thank you for your co-operation.*

Gwasanaeth Carolau Eglwys Cyffylliog Cyffylliog Church Christmas Service

Roedd parti o blant o'r ysgol i fod i gymryd rhan yn y gwasanaeth carolau nos Sul ond cafodd ei ohurio oherwydd y tywydd garw. Bydd nawr yn cael ei gynnal nos Wener Rhagfyr 22ain am 6 o'r gloch. Gobeithio y bydd mwyafrif y parti yn medru cymeryd rhan bryd hynnu. *A singing group from school were meant to take part in the carol service but unfortunately it was canceled because of the snow. It will now take place on Friday December 22nd at 6pm. Hopefully most of the children in the party will be able to take part.*



Gwasanaeth Nadolig Christmas Service

Nos Fawrth Rhagfyr 19eg
Tuesday December 19th

Capel Cyffylliog Chapel
6.30pm

Croeso i Bawb / *Everyone Welcome*

Bydd casgliad tuag at elusennau Cancr
There will be a collection towards Cancer charities.

Plant (yn cynnwys meithrin) yn eu gwisg ysgol os gwelwch yn dda ac i gyrraedd erbyn 6.30pm. Bydd pawb yn mynd i'r capel fore
Llun nesaf i gael ymarfer

Children (including nursery) in school uniform please and to arrive for 6.30pm start. Everyone will be going to the chapel on Monday for a practice.

Diolch yn fawr i bawb ddaeth i gefnogi y Ffair Nadolig. Diolch i Rhian am drefnu ac i'r holl rieni fu'n helpu. **Gwnaethpwyd elw o tua £400!!**
Thanks to everyone who supported the Christmas Fair. Thanks to Rhian for organizing and to all the parents who helped. We raised around £400!!



Hwyl yn y Ffair Nadolig



PIC-COLLAGE